**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion cyfarfod Ymddiriedolwyr y Bwrdd Iechyd a gafodd ei ffrydio'n fyw yn gyhoeddus ar 11.3.21 dros Zoom**

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mark Polin | Cadeirydd |
| Louise Brereton | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Nicky Callow | Aelod Annibynnol ~ Prifysgol |
| Cheryl Carlisle | Aelod Annibynnol |
| John Cunliffe | Aelod Annibynnol |
| Gareth Evans | Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd |
| Sue Green | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol |
| Arpan Guha | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro |
| Gill Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth /Dirprwy Brif Weithredwr |
| Sue Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| Jackie Hughes | Aelod Annibynnol |
| Medwyn Hughes | Aelod Annibynnol |
| Eifion Jones | Aelod Annibynnol |
| Lyn Meadows | Aelod Annibynnol |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| Lucy Reid | Is-gadeirydd |
| Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned |
| Adrian Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| Linda Tomos | Aelod Annibynnol |
| Jo Whitehead | Prif Weithredwr |
| Ffrancon Williams | Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Kate Dunn | Pennaeth Materion Corfforaethol (*ar gyfer cofnodion)* |
| Simon Evans-Evans | Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro |
| Lowri Gwyn | Cyfieithydd |
| Rebecca Hughes | Uwch Gyfrifydd - Cronfeydd Elusennol ac Adroddiadau Ariannol |
| Emma Jones | Rheolwr Codi Arian, Awyr Las |
| John Morrell | Uwch Beiriannydd Systemau TGC (*ar gyfer cymorth ffrydio'n fyw*) |
| Llinos Roberts | Rheolwr Busnes Gweithredol – Swyddfa'r Cadeirydd (*ar gyfer cymorth ffrydio'n fyw)* |
| Kirsty Thomson | Pennaeth Codi Arian, Awyr Las |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Mark Wilkinson | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu gan |
|---|---|
| **21/27 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020**<br><br>**21/27.1** Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir a chadarnhawyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u dilyn a'u cwblhau. | |

| | |
|---|---|
| Datganwyd diddordeb posibl gan y Pennaeth Codi Arian ei bod yn Ddirprwy Gadeirydd i NHS Charities Together.<br><br>**21/28 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**<br><br>**21/28.1** Cyflwynodd yr Uwch Gyfrifydd (Cronfeydd Elusennol ac Adroddiadau Ariannol) yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i'r Bwrdd Iechyd fel yr ymddiriedolwr corfforaethol. Cadarnhaodd bod Archwiliad Cymru wedi arwyddo'r cyfrifon ym mis Rhagfyr 2020 a'u bod wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennol fel bo angen ym mis Ionawr 2021. Bu iddi dynnu sylw at y ffaith bod yr Elusen Awyr Las wedi derbyn £2.6m o incwm yn ystod 2019-20 ac wedi gwario £2.5m. Tynnwyd sylw'r aelodau at golli buddsoddiad gwerth £0.3m yn sgil effaith Covid-19 ond bod y sefyllfa hon bellach wedi'i hadfer. Nodwyd pwynt cywirdeb ar dudalen 60 a 61 o ran sillafu enw Mr John Cunliffe.<br><br>**21/28.2 Penderfynwyd bod** y Bwrdd, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol Cronfeydd Elusennol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2019/20. | |
| **21/29 Yr Adolygiad 10 Mlynedd ac Adroddiad Effaith Cronfa Covid-19**<br><br>**21/29.1** Rhoddwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Codi Arian a'r Rheolwr Codi Arian (Awyr Las) a amlinellodd:<br>• Grantiau a roddwyd drwy gronfa apêl Covid-19;<br>• Eglurhad am y grantiau tri cham o'r apêl Covid-19;<br>• Dynodi bron i £5m i Gymru drwy NHS Charities Together - gydag Awyr Las yn cael £912,000;<br>• Enghreifftiau o’r hyn a gafwyd gyda’r grantiau;<br>• Dadansoddiad o'r grantiau yn ôl thema, grŵp cleifion a gwasanaeth.<br><br>**21/29.2 Penderfynwyd bod** y Bwrdd, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol Awyr Las (Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), yn nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd yn yr Adolygiad 10 Mlynedd ac Adroddiad Effaith Covid-19 a'r cyflwyniad. | |
| **21/30 Strategaeth Awyr Las 2021-25**<br><br>**21/30.1** Rhoddwyd cyflwyniad gan Bennaeth Awyr Las a oedd yn amlinellu:<br>• Bod yr elusen wedi bodloni ei nodau a fwriadwyd yn rhannol o ran codi ymwybyddiaeth o roi i wasanaethau gofal iechyd, a'r ymgyrchoedd gyda ffocws o ran pobl hŷn, y blynyddoedd cynnar, gofal canser ac iechyd meddwl;<br>• Beth fyddai'n cael ei wneud yn wahanol ar gyfer 2021-25 o ystyried y proffil uwch drwy NHS Charities Together;<br>• Drafftiwyd fframwaith strategaeth yn dilyn gweithdai a byddai arolwg staff a gynlluniwyd yn rhoi gwybod am ddatblygiad y strategaeth hefyd;<br>• Gwahoddwyd Aelodau'r Bwrdd i gyfrannu at ddatblygiad y strategaeth a dynodi blaenoriaethau drwy gwblhau arolwg. | |

| | |
|---|---|
| **21/30.2** Cafwyd trafodaeth. Dymunodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol estyn ei diolch i dîm Awyr Las am eu gwaith arbennig dros y 12 mis diwethaf a theimlwyd eu bod wedi addasu a symud ymlaen. Bu iddi annog aelodau'r bwrdd i gwblhau'r arolwg pan fydd yn cael ei gylchredeg. Cyfeiriodd y Cadeirydd yn ôl at yr adroddiad blynyddol a chyfeiriad at ostyngiad mewn incwm. Cydnabu'r Pennaeth Codi Arian (Awyr Las) fod hwn yn fater o bryder gan fod wardiau ac adrannau yn dibynnu ar roddion i ddarparu'r 'ychwanegion' a wnaeth wahaniaeth gwirioneddol i dimau a staff. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cefnogaeth anferthol i'r ymateb Covid-19 ond gostyngiad sylweddol o ran rhoddion i wardiau ac adrannau penodol. Ychwanegodd bod ffrydiau incwm gwahanol yn cael eu harchwilio ynghyd â chodi proffil yr elusen ar lwyfannau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Bu iddi hefyd nodi bod angen codi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb cyfunol ar yr holl staff i hyrwyddo elusen GIG BIPBC. Gofynnodd y Cadeirydd beth arall gall y Bwrdd ei wneud i gefnogi'r elusen. Bydd y Pennaeth Codi Arian yn croesawu'r negeseuon a'r gefnogaeth barhaus i'r elusen drwy sesiynau briffio; a bod yn fwy gweledol i godi'r proffil. Bu iddi gyfeirio at y digwyddiadau cynlluniedig i ddathlu pen-blwydd y GIG ac adeiladu ar yr ymgyrch 'goleuo'r Nadolig'. Bu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gyfeirio at benodi tîm rheoli buddsoddiad newydd a roddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn ddiweddar. Bu i'r Prif Weithredwr ddiolch am y gefnogaeth gyson a ddarparwyd gan Awyr Las.<br><br>**21/30.3 Penderfynwyd bod** y Bwrdd, fel Ymddiriedolwr Corfforaethol Awyr Las (Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), yn nodi'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y cyflwyniad am strategaeth newydd yr elusen. | |